Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol

4 Gorffennaf 2019

Diogelwch tân mewn adeiladau uchel iawn

Annwyl Weinidog,

Rwy'n ysgrifennu yn dilyn cyhoeddi Map tuag at adeiladau mwy diogel yng Nghymru ("Y Map") a'r ddau ddatganiad llafar a wnaethoch ar ymateb Llywodraeth Cymru i'r Map.

Yn gyntaf, yn y datganiad ar 21 Mai, gwnaethoch ymrwymiad i rannu'r cynllun prosiect manwl, ond hyd y gwyddom, nid yw hwn wedi'i roi yn llyfrgell y Cynulliad eto, nac wedi'i ddosbarthu i Aelodau. Rwy'n deall y gallai fod wedi cael ei ddosbarthu i un Aelod Cynulliad, ond hyd y gwyddom nid yw wedi'i ddosbarthu'n ehangach. Byddwn yn ddiolchgar o gael gwybodaeth gennych ynghylch pryd y bydd hwn ar gael i Aelodau.

Fel y gwyddoch, mae'r Pwyllgor, ac Aelodau eraill y Cynulliad yn dymuno gweld yr holl bartneriaid cyfrifol, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, yn mynd ar drywydd diogelwch tân yn gyflym a gweithgar. Fel y dywedodd llawer ohonom yn y Cyfarfod Llawn, nid oes dim mwy sylfaenol na bod ein cartref yn ddiogel. Ni ellir bod yn hunanfodlon ynghylch hyn. Gwyddom nad oedd rhybuddion yn sgîl trychineb Lakanal House wedi cael sylw. Y mis diwethaf hefyd, roedd tân arall, nad oedd yn dân angheuol, diolch byth, mewn bloc o fflatiau yn Barking.

Bu'n glir ers trychineb tân Grenfell bod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i fynd i'r afael â'r materion cymhleth hyn. Rydym yn cydnabod bod angen dull ystyriol a graddol yn hyn o beth, ac mae'n fater cymhleth, ond rydym yn parhau i deimlo'n rhwystredig nad yw cyflymder gweithredu ar rai o'r materion hyn yn ddigon cyflym.

Pan ofynnais i chi am hyn, dywedasoch mai un o'r materion yw nad oes consensws ymhlith yr holl randdeiliaid a rheoleiddwyr ynglŷn â disodli'r Gorchymyn Diogelwch Tân, a bod rhai o'r materion hyn yn fwy dadleuol nag yr

oeddech wedi'i ddisgwyl. A oes modd i chi amlinellu beth yw'r gwahaniaethau barn hyn, a sut y gallent ohirio penderfyniad terfynol?

Fel y gwyddoch, credwn yn gryf fel Pwyllgor y dylid cyflwyno'r ddeddfwriaeth newydd i gymryd lle'r Gorchymyn Diogelwch Tân yn y Cynulliad presennol; a ydych bellach mewn gwell sefyllfa i roi gwybod a yw hyn yn debygol o ddigwydd nawr?

Nodaf eich sylwadau o'r datganiad diweddaraf, sef, gan ei bod yn debygol na fydd yn ddadleuol, na ddylai fod yn ddarn o ddeddfwriaeth y gallai canlyniad etholiad 2021 effeithio arno. Ond ein pryder ni yw, oherwydd ei fod yn rhan mor bwysig o'r fframwaith diogelwch tân, y bydd oedi tan gyfnod nesaf y Cynulliad (gan ystyried y cyfnod diddymu ac unrhyw amser a gymerir i ffurfio Llywodraeth, sefydlu pwyllgorau'r Cynulliad, ac yna dechrau'r broses graffu deddfwriaethol) yn golygu y byddwn yn aros yn rhy hir cyn craffu ar y newidiadau deddfwriaethol hyn, heb sôn am eu gweithredu.

Un o brif feysydd pryder y Pwyllgor oedd drysau tân, ac a ydynt yn darparu 30 munud o ddiogelwch. Pan roddodd eich rhagflaenydd dystiolaeth i'r Pwyllgor y llynedd, amlinellodd y camau a oedd yn cael eu cymryd i sicrhau bod pobl gyfrifol yn cael y wybodaeth gywir am ddiogelwch drysau tân. Dywedodd hefyd, fodd bynnag, na ellid disgwyl i Lywodraeth Cymru wybod pa adeiladau oedd â'r drysau a oedd yn peri pryder.

Nodwn fod Inside Housing wedi adrodd yn ddiweddar bod miloedd o ddrysau tân nad ydynt yn cydymffurfio â gofynion yn dal mewn tai cyngor ledled Lloegr. Mae hyn yn amlwg yn destun pryder, a hoffem ofyn am ragor o wybodaeth a sicrwydd am y sefyllfa mewn adeiladau uchel yng Nghymru. Nodwn eich bod wedi dweud o'r blaen mai dim ond un rhan o'r ateb yw drysau tân, ond mae'n amlwg eu bod yn chwarae rhan bwysig wrth gynnal rhaniad a chadw pobl ac adeiladau'n ddiogel os bydd tân.

Gwnaeth ein Pwyllgor, yn ein hadroddiad diweddaraf, argymhellion hefyd ynglŷn â dichonolrwydd gofyn am arolygon ymledol lefel pedwar ar gyfer adeiladau preswyl uchel iawn. Fe wnaethoch chi dderbyn yr argymhellion hyn mewn egwyddor, a dweud y byddech yn ystyried a oes angen arolygon o'r fath a phwy allai fod yn y sefyllfa orau i'w darparu. Ni chafodd y mater hwn ei gynnwys yn y Map Tuag at Adeiladau mwy Diogel. A allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am yr ystyriaethau hyn a phryd y disgwyliwch wneud penderfyniad?

Wrth ymateb i'n hadroddiad, gwnaethoch hefyd ymrwymo i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am y gallu i brofi deunyddiau, ac unrhyw effaith y gallai hyn fod

wedi'i chael ar adeiladau uchel yng Nghymru. A allech chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y mater hwn?

Hoffem hefyd gael gwybodaeth fanylach am y camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i annog ôl-osod taenellwyr, yn enwedig mewn adeiladau sector preifat.

Rydym yn falch bod yr holl adeiladau yng Nghymru sydd â chladin ACM wedi'u nodi, ac nad yw'r gwaith adfer yn cael ei ariannu gan lesddeiliaid na phreswylwyr. Allwch chi ddarparu rhagor o fanylion ynghylch pryd rydych chi'n disgwyl i'r holl waith adfer gael ei gwblhau?

Yn ein hadroddiad, argymhellwyd y dylid rheoleiddio o ran asiantau rheoli adeiladau preswyl uchel iawn. Yn eich ymateb cychwynnol, gwnaethoch amlinellu sut roedd yr awgrym a wnaethom ynglŷn ag ymestyn cylch gwaith Rhentu Doeth Cymru "yn anymarferol" yn y "tymor interim a'r tymor byr" oherwydd y byddai angen newidiadau deddfwriaethol arno. Gyda'r Grŵp Tasg a Gorffen Lesddaliad i adrodd yn fuan, a deallwn bod cysylltiad agos rhyngddo â'n hargymhelliad, a allech chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch a fyddwch chi'n ceisio cyflwyno rheoliadau o'r fath?

Yn olaf, symudaf ymlaen at fater rheoliadau adeiladu. Wrth ymateb i'n hadroddiad, gwnaethoch wrthod ein hargymhelliad, bryd hynny, i "newid y fframwaith rheoleiddio ar fyrder i ganiatáu i ddim ond gwasanaethau rheoli adeiladu awdurdodau lleol weithredu fel rheoleiddiwr adeiladau preswyl uchel iawn saith llawr neu fwy" ond dywedasoch hefyd y byddech yn ystyried y materion o ran galluoedd perthnasol a chymhwysedd arbenigol mewn perthynas â rheoli adeiladu. Yng ngoleuni'r Map Tuag at Adeiladau mwy Diogel, ydych chi wedi ailystyried eich ymateb i'n hargymhelliad?

Edrychaf ymlaen at gael eich ymateb.

Yn gywir

John Griffiths

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English